Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Smiles Better (BUPA), Y Fenni

Dyddiad yr arolygiad: 18 Awst 2026

Dyddiad cyhoeddi: 18 Tachwedd 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein **gwefan** neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-642-7

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom 5

2. Crynodeb o'r arolygiad 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym 9

Ansawdd Profiad y Claf 9

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol 13

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth 18

4. Y camau nesaf 22

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 23

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith 24

Atodiad C – Cynllun gwella 25



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Smiles Better (BUPA), Y Fenni ar 18 Awst 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 10 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd 12 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol i holiadur cleifion AGIC am eu profiad yn Smiles Better (BUPA), Y Fenni, gan gynnwys sawl sylw testun rhydd cadarnhaol. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau gan esbonio beth roeddent yn ei wneud drwy gydol eu hapwyntiad hefyd. Dywedodd y cleifion eu bod yn ei chael hi'n hawdd cael apwyntiad pan fo angen un arnynt a gwnaethant roi gradd 'da iawn' neu 'da' i'r gwasanaeth.

Gwelsom fod proses rheoli apwyntiadau effeithiol ar waith, a oedd yn defnyddio amser yr ymarferwyr yn briodol. Roedd apwyntiadau brys yn cael eu brysbennu gan y staff, a dywedwyd wrthym na fyddai unrhyw glaf yn aros mwy na 24 awr i gael eu gweld.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfathrebu â chleifion yn eu dewis iaith. Gwelsom fod dulliau cyfieithu ar gael i'r staff gyfathrebu â'r cleifion, gan gynnwys drwy Iaith Arwyddion Prydain. Roedd dolen sain ger desg flaen y practis ar gyfer cleifion â gofynion clyw.

Gwelsom fod y practis yn cefnogi hawliau unigolion ac yn eu trin yn gyfartal. Roedd menter gorfforaethol yn annog y staff i leisio eu barn ar faterion amrywiaeth ac roedd trefniadau amrywiaeth corfforaethol ar gael i gefnogi'r staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl adborth gan y cleifion a'r staff yn gadarnhaol
- Roedd y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus
- Roedd y practis yn rhoi blaenoriaeth i'r broses o ddarparu gofal mewn modd amserol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod yr ardaloedd i gleifion yn y practis yn daclus ac yn drefnus, ac roedd yn ymddangos bod y tu mewn a'r tu allan i adeilad y practis mewn cyflwr boddhaol. Roedd trefniadau iechyd a diogelwch a rhagofalon tân y practis yn briodol, gan sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel mewn amgylchedd diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei gadw'n lân, fodd bynnag, mewn dwy ddeintyddfa, gwelsom fod llwch yn casglu ar y siliau ffenestr a gwnaethom ddatrys hyn gyda'r practis yn ystod yr arolygiad. Hefyd, roedd rhai ardaloedd i'r staff yn unig fel yr islawr a chwpwrdd storio yn anniben ac mae angen i'r gwasanaeth wella hyn.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hawdd i'r holl staff a dywedodd y staff wrthym fod PPE priodol yn cael ei gyflenwi a'i ddefnyddio. Roedd dyfeisiau meddygol yn y lleoliad yn cael eu cadw'n lân ac roeddent mewn cyflwr da a gwelsom fod dyfeisiau amldro yn cael eu glanhau'n effeithiol mewn ystafell ddihalogi benodol. Roedd y gydymffurfiaeth gyffredinol â rheoliadau delweddu diagnostig yn addas, ond gwelsom fod rhai meysydd i'w gwella o ran prosesu delweddau pelydr-X a chafodd y rhain eu datrys gan y lleoliad yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Roedd gweithdrefnau diogelu priodol a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod i bwy roedd angen adrodd pryderon diogelu, roeddent yn teimlo'n hyderus y gallent adnabod arwyddion camdriniaeth ac y byddent yn cael cefnogaeth pe byddent yn codi pryderon.

Roedd yr holl gofnodion cleifion a welsom yn ystod yr arolygiad wedi'u cwblhau'n llawn ac yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r gofal a ddarperir i'r cleifion. Gwelsom fod atgyfeiriadau brys yn cael eu cofnodi'n briodol a'u holrhain mewn modd amserol gan y clinigwyr.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod yr ardaloedd i gleifion yn cael eu cadw'n daclus a bod mopiau glanhau yn cael eu gadael i sychu'n briodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cofnodion y cleifion yn rhoi darlun clir a chynhwysfawr o'r gofal a roddir i'r cleifion
- Roedd y mesurau diogelu yn gynhwysfawr ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff a welsom yn yr arolygiad yn broffesiynol, yn wybodus ac yn trin y cleifion â charedigrwydd. Gwelsom fod trefniadau cefnogol ar waith i'r staff gan dîm rheoli sefydledig a threfniadau llywodraethu addas. Roedd y gweithdrefnau sefydlu a'r cymorth parhaus ar gyfer dysgu a datblygu yn cael eu rheoli'n briodol. Cadarnhaodd yr holl staff a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd yr holl gofnodion staffio a hyfforddiant a welsom yn cydymffurfio'n llawn â'r safon ddisgwyliedig. Dywedodd yr holl ymatebwyr i holiadur AGIC eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rolau ac roedd cymysgedd priodol o sgiliau yn y practis.

Roedd y practis yn cynnal gweithgareddau gwella ansawdd yn rheolaidd. Gwelsom fod archwiliadau'n cael eu cynnal mewn sawl maes y tu hwnt i'r hyn a oedd yn orfodol a gwnaethom nodi bod hyn yn arfer cadarnhaol. Fodd bynnag, roedd yr archwiliadau o ansawdd radiograffig wedi colli delweddau diagnostig a oedd yn aneglur ac mae angen i'r practis wella eu trefniadau archwilio yn y maes hwn.

Roedd adborth a chwynion cleifion yn cael eu rheoli mewn ffordd effeithiol i sicrhau bod llais y cleifion yn cael ei ystyried yn addas. Wrth adolygu sampl o gwynion, ni welsom unrhyw themâu cyffredin, ac ymatebwyd i bob un yn unol â pholisi'r practis.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr archwiliadau o ansawdd radiograffig yn cael eu hadolygu a'u gwella.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd rheolaeth gefnogol a threfniadau llywodraethu cadarn yn helpu'r practis i redeg yn effeithiol
- Roedd y practis yn casglu adborth gan y cleifion yn rheolaidd, yn ei adolygu ac yn gweithredu arno.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol. Nododd yr ymatebwyr fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael gan y practis yn 'dda iawn' (9/10) neu'n 'dda' (1/10).

Roedd yn gadarnhaol nodi sylwadau cefnogol gan y cleifion am y practis a'i staff. Ymysg y sylwadau hyn roedd:

> *"Practis deintyddol rhagorol, staff cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr opsiynau triniaethau yn cael eu hesbonio'n glir ac roedd y driniaeth yn garedig ac yn ofalgar."*
>
> *"Eithriadol o garedig a chymwynasgar bob tro."*
>
> *"Esboniadau clir, gofal dilynol da, croesawgar a phopeth yn cael ei esbonio'n glir."*
>
> *"Maent yn fy adnabod i a fy ngofynion. Rwyf wedi bod yn dod i'r practis hwn a phractisau blaenorol ers dros 40 o flynyddoedd."*

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom wybodaeth wedi'i harddangos yn yr ardal aros i gleifion a oedd yn rhoi cyngor i'r cleifion ar ffyrdd o gynnal iechyd y geg da, ynghyd â gwybodaeth am sepsis a dulliau brwsio dannedd da. Roedd cleifion pediatrig yn cael cynnig pâst dannedd am ddim yn y dderbynfa er mwyn hyrwyddo iechyd y geg da a gwnaethom nodi bod hyn yn fenter gadarnhaol. Roedd y daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben yn gyfredol ac ar gael i'r cleifion eu gweld yn y dderbynfa mewn llawlyfr ac ar wefan y practis. Roedd y ffioedd ar gyfer triniaethau ac enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos mewn man y gellid eu gweld yn hawdd o amgylch y practis. Roedd yr oriau agor a'r manylion cyswllt brys ar gyfer y practis i'w gweld yn glir y tu allan i'r adeilad.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus drwy gydol eu taith gofal. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch a bod y staff wedi gwrando arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau. Dywedodd y cleifion fod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol yr apwyntiad, a'u bod wedi cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys wrth wneud

penderfyniadau am eu triniaeth. Dywedodd pawb a ymatebodd i'r holiadur eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cael y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, p'un a oedd ganddynt unrhyw nodweddion gwarchodedig ai peidio. ` Dywedodd y cleifion wrthym:

> *“Dyma'r practis cyntaf i mi fod ynddo lle mae pobl yn gwrando arnaf. Cyn hyn rwyf wedi teimlo fy mod yn cael fy rhuthro a'm trin fel hen fenyw wirion yn gwastraffu amser pobl. Yma, maent yn gwrando ac yn sicrhau fy mod yn deall popeth, a hefyd bod y llenwadau yn aros yn eu lle!!!”*

“Y practis deintyddol mwyaf cefnogol a gofalgar i mi ei gael mewn 57 o flynyddoedd.”

Roedd amgylchedd y practis yn hyrwyddo gofal urddasol ac roedd y staff yn cymryd camau i sicrhau preifatrwydd cleifion wrth gael eu trin yn y deintyddfeydd. Roedd y dderbynfa a'r ardaloedd aros wedi'u cysylltu ond ni chlywsom unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrafod wyneb yn wyneb na thros y ffôn. Dywedodd y staff wrthym nad oedd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei hailadrodd dros y ffôn, a bod swyddfa yn cael ei defnyddio pan oedd angen cynnal sgyrsiau cyfrinachol.

Dywedodd yr holl ymatebwyr i holiadur staff AGIC fod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael ei gynnal a bod y cleifion yn cael gwybodaeth ac yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal. Dywedodd pob aelod o'r staff hefyd eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn eu rhoi i'r cleifion.

Roedd contractau'r practis yn cynnwys cymal cyfrinachedd a oedd yn amlinellu cyfrifoldebau'r staff i ddiogelu gwybodaeth am gleifion. Roedd cytundebau cyfrinachedd yn cael eu defnyddio lle nad oedd y cymalau hyn wedi'u cynnwys ar gyfer cyflogeion â chontractau hŷn. Gwelsom fod y naw egwyddor graidd a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn y dderbynfa.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd yr holl gleifion a wnaeth ymateb i holiadur AGIC fod iechyd eu ceg wedi'i esbonio iddynt mewn ffordd yr oeddent yn gallu ei deall a gwnaethant ddweud eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, gan gynnwys risgiau a manteision pob opsiwn. Roedd cleifion a oedd wedi cael tawelydd yn cael gwybodaeth am iechyd y geg ac ôl-ofal ar lafar ac yn ysgrifenedig. Dywedodd pob claf eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl triniaethau, a dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebion bod y costau wedi cael eu hegluro iddynt cyn y driniaeth.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod proses rheoli apwyntiadau effeithiol ar waith, a oedd yn defnyddio amser

yr ymarferwyr yn briodol. Esboniodd y staff mai'r amser aros rhwng apwyntiadau am driniaethau arferol oedd tua phythefnos, ac y gallai hyn amrywio i bedair wythnos ar gyfer rhai triniaethau arbenigol. Roedd y cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau wyneb yn wyneb ar ôl eu triniaethau, dros y ffôn neu ar-lein. Dywedodd y staff wrthym nad oedd eu hapwyntiadau'n aml yn rhedeg yn hwyr, ond lle'r oedd achosion o oedi, roedd y clinigwyr yn rhoi gwybod i'r dderbynfa fel bod y cleifion yn cael gwybod. Byddai achosion o oedi hirach yn cael eu cyfleu i gleifion dros y ffôn a byddai apwyntiadau eraill yn cael eu cynnig ar gais. Nododd y rhai a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi ei chael hi'n 'hawdd iawn' (8/10) neu'n 'eithaf hawdd' (2/10) cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau yn cael eu trefnu yn unol ag argaeledd cleifion lle bynnag y bo'n bosibl.

Gwelsom fod tîm y dderbynfa yn defnyddio system addas ar gyfer brysbennu cleifion dros y ffôn er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r rhai yr oedd angen gofal brys arnynt fwyaf, gan ymgynghori â'r ymarferwyr lle bo angen. Gwelsom fod amser wedi'i bennu yn nyddiadur y practis bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, a dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn aros mwy na 24 awr i gael ei weld. Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau yn cael ei ddarparu er mwyn i gleifion allu cysylltu â'r practis mewn argyfwng. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn i'w wneud mewn argyfwng neu pe baent yn datblygu haint, ac y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i helpu i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd cyfathrebu â chleifion yn eu dewis iaith. Roedd dulliau cyfieithu ar gael i'r staff gyfathrebu â'r cleifion, a oedd yn cynnwys Iaith Arwyddion Prydain. Roedd dolen sain ger desg flaen y practis ar gyfer cleifion â gofynion clyw. Roedd rhywfaint o wybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau gwahanol fel print bras a dywedodd y staff y gallent gael gafael ar fformatau mwy arbenigol ar gais gan gleifion.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom fod y practis yn cefnogi hawliau unigolion ac yn eu trin yn gyfartal. Roedd polisïau boddhaol ar waith, ac roedd y staff yn cael hyfforddiant penodol i ddiogelu hawliau cleifion ac atal achosion o aflonyddu neu wahaniaethu. Gwelsom fenter gorfforaethol a oedd yn annog y staff i leisio eu barn ac roedd grwpiau amrywiaeth yn y gweithlu ar gael i'r staff ymuno â nhw.

Rhoddodd y staff enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd fel addasiad rhesymol i gleifion a chyflogeion, gan gynnwys cadair

arbenigol ar gyfer aelod o'r staff a stôl sefyll i gleifion yn yr ardal aros. Gwelsom fod hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal drwy ganiatáu i gleifion ddewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhywedd a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd yr adeilad, i bob golwg, mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Gwelsom fod maint a chynllun y chwe deintyddfa, yr ardaloedd aros i gleifion a'r ystafell ddihalogi yn addas i sicrhau y gellir darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Dywedodd yr ymatebwyr i'r holiadur staff fod y cyfleusterau a'r amgylchedd yn briodol iddynt gyflawni eu rolau gan sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt. Clywsom linellau ffôn yn gweithio'n iawn a gwelsom ardaloedd newid addas â chyfleusterau storio personol ar gael i'r staff. Gwelsom fod toiledau'r staff a'r cleifion yn lân ac yn cynnwys digon o gyfarpar. Gwelsom fod toiled y cleifion ar y llawr gwaelod ar gael i unigolion ag anawsterau symudedd.

Roedd cyfarpar deintyddol y practis mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Gwelsom fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle bo'n briodol. Dywedodd yr ymatebwyr i holiadur staff AGIC fod ganddynt y deunyddiau, y cyfarpar a'r cyflenwadau i wneud eu gwaith.

Roedd polisïau a gweithdrefnau boddhaol ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant cleifion a staff. Roedd tystysgrifau diogelwch ar gael ar gyfer profion offer cludadwy, profion bob pum mlynedd ar y gwifrau trydanol sefydlog a'r gwiriadau diogelwch nwy blynyddol. Gwelsom fod asesiadau risg ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch wedi cael eu cwblhau a'u bod yn cyrraedd y safonau disgwyliedig. Dywedodd y staff a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym fod eu practis yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau. Gwnaethant hefyd ddweud y byddent yn cael eu trin yn deg pe byddent yn codi pryder ac y byddai camau'n cael eu cymryd i atal digwyddiadau rhag codi eto yn y dyfodol.

Gwelsom fod trefniadau diogelwch tân cadarn a chynhwysfawr ar waith. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cynnal a chadw a phrofi'r cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd, ynghyd ag arwyddion clir ar gyfer allanfeydd tân ac arwyddion dim smygu clir. Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr y practis a phoster gwybodaeth gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'u harddangos.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd y polisïau atal a rheoli heintiau yn amlinellu'r prosesau yr oedd disgwyl i'r staff eu dilyn i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Dywedodd yr ymatebwyr i holiadur cleifion AGIC fod y practis yn 'lân iawn' a'u bod yn teimlo bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod siliau ffenestr sy'n rhannol y tu ôl i gypyrddau mewn dwy ddeintyddfa yn llychlyd ac ar sil ffenestr un o'r deintyddfeydd gwelsom eitem o gyfarpar deintyddol untro ynghyd ag eitemau personol

wedi'u gadael. Trafodwyd hyn â'r staff a chafodd hyn ei uwchgyfeirio i'w glanhawyr ar gontract. Sefydlwyd nad oedd y broses o lanhau y tu ôl i'r cypyrddau wedi'i chynnwys ar amserlen lanhau y practis. Cafodd yr ardaloedd eu glanhau'n drylwyr y diwrnod gwaith canlynol, ac ychwanegwyd yr ardaloedd at restr wirio glanhau'r practis. Mewn mannau eraill o'r ardaloedd i gleifion yn y practis, roedd yr amgylchedd yn cael ei gynnal i lefel dda o lendid. I'r gwrthwyneb, yn ystod ein harolygiad o islawr y practis, gwelsom fod blychau'n cael eu storio ar loriau a bod yr ardal yn anniben yn gyffredinol. Hefyd, wrth archwilio storfa a chwpwrdd glanhau y practis, gwelsom fod eitemau ychwanegol wedi cael eu storio ar y llawr a bod y mopiau glanhau wedi cael eu gadael i sychu mewn bwcedi – yn hytrach na chael eu clipio i'r clipiau wal dynodedig. Mae eitemau sy'n cael eu storio ar y llawr yn atal yr ardaloedd hynny rhag cael eu dihalogi'n effeithiol neu gallent rwystro allanfa mewn argyfwng. Mae gadael mopiau glanhau i sychu yn eu bwcedi yn creu risg y bydd halogyddion yn cronni.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr ardaloedd nad ydynt i gleifion yn cael eu cadw'n daclus a bod mopiau glanhau yn cael eu gadael i sychu'n briodol.

Yn ystafell ddihalogi'r practis, gwelsom fod yr amgylchedd a'r holl gyfarpar yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel i helpu i sicrhau bod offer amldro yn cael eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer dihalogi a sterileiddio'r offer yn yr ystafell ddihalogi yn gadarn. Gwnaethom edrych ar gofnodion o wiriadau dyddiol o gylchred yr awtoclaf a phrofion ar gyfer yr holl beiriannau. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar y lefel gywir mewn perthynas â dihalogi cyfarpar. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio a'i waredu'n gywir o dan gontract gwaredu gwastraff addas. Roedd y trefniadau ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus i bob aelod o'r staff. Dywedodd yr ymatebwyr i holiadur staff AGIC fod cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol yn cael ei ddarparu a'i ddefnyddio. Roedd arferion hylendid dwylo cyffredinol yn cael eu hyrwyddo drwy weithdrefnau cadarn ac ar arwyddion yn yr ardaloedd i gleifion a staff. Gwnaethom nodi bod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli anafiadau a achosir gan nodwydd, gydag asesiadau risg yn dogfennu'r peryglon sy'n gysylltiedig ag offer miniog. Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael i bob aelod o'r staff ac roedd y manylion ar gael yn rhwydd o amgylch y ddeintyddfa ac ar-lein. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol a oedd ar gael iddynt.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer trin, storio, defnyddio a gwaredu unrhyw feddyginiaethau yn gynhwysfawr. Roedd y meddyginiaethau brys a oedd ar gael yn y practis yn cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol, a gwelsom hefyd fod cyffuriau brys priodol ar gael ar gyfer cleifion a oedd yn cael tawelydd ymwybodol mewnwythiennol.

Roedd cofnodion y staff yn dangos eu bod yn meddu ar gymwysterau ym maes adfywio cardiopwlmonaidd a chymorth cyntaf.

Wrth archwilio'r cyfarpar brys, gwelsom fod yr holl eitemau yn bresennol ac yn gyfredol. Gwnaethom nodi bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r pecyn cymorth cyntaf, y diffibriliwr a'r ocsigen. Gwelsom dystiolaeth hefyd o wiriadau cynnal a chadw a gwasanaethu gofynnol wedi'u cynnal ar y silindrau ocsigen. Cafodd y staff eu hatgoffa o'r gofyniad i sicrhau bod silindrau ocsigen yn cael eu cadw gerllaw mewn deintyddfa pan fyddai proses dawelyddu ymwybodol yn cael ei chynnal a chafodd hyn ei ychwanegu at restrau gwirio'r practis yn ystod ein harolygiad. Gwnaethom nodi bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ocsigen penodol BOC yn unol â Hysbysiad Diogelwch Cleifion 041 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ond bod bylchau o hyd o ran cydymffurfiaeth. Cynghorwyd y practis i barhau i annog eu staff i gwblhau'r hyfforddiant yn ystod eu hamser hyfforddiant dynodedig.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gweithdrefnau diogelu priodol a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau'n cynnwys manylion cyswllt o fewn yr awdurdod lleol ac yn enwi arweinydd diogelu. Roedd copi o Weithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i gyd-fynd â'r polisi hwn, gydag unrhyw ddiweddariadau'n cael eu cyfathrebu drwy hyfforddiant a'u corff corfforaethol. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar ddiogelu plant ac oedolion. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod i bwy roedd angen adrodd pryderon diogelu, roeddent yn teimlo'n hyderus y gallent adnabod arwyddion camdriniaeth ac y byddent yn cael cefnogaeth pe byddent yn codi pryderon.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Gwelsom fod yr eitemau hyn yn cael eu defnyddio mewn modd a oedd yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol ac roedd y staff a welsom yn ystod yr arolygiad yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfarpar. Fodd bynnag, wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom fod yr holl ddelweddau radiograffig a archwiliwyd yn dangos rhywfaint o afluniad. Mewn rhai achosion, roedd ansawdd y ddelwedd wedi aflunio cymaint fel y gallai fod wedi effeithio ar allu clinigwyr i wneud diagnosis cywir neu i ddod i gasgliadau clinigol cadarn.

Gwnaethom drafod y canfyddiadau hyn â sawl clinigydd a sawl aelod o dîm rheoli'r practis yn ystod yr arolygiad. Gwnaethom sefydlu fod y problemau wedi codi ar ôl i brosesydd delweddau pelydr-X newydd gael ei osod. Mae delweddau radiograffig wedi'u haflunio yn cynyddu'r risg o golli neu oedi diagnosis, canfyddiadau amhendant a niwed i gleifion y gellir ei osgoi.

Anfonwyd cadarnhad at AGIC bod system cydraniad uchel newydd wedi cael ei chyflwyno yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Roedd ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis ar gael yn rhwydd ac yn cael ei chadw'n drefnus ar y cyfan. Gwnaethom nodi na ellid cael gafael ar un ddogfen i ddechrau; fodd bynnag, cafodd ei hanfon at AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad. Gwelsom fod copïau o'r rheolau lleol ar gael yn hwylus wrth ymyl pob dyfais pelydr-X. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau ar gysylltiadau ag ymbelydredd. Roedd y clinigwyr yn amlinellu'n glir y trafodaethau a gynhaliwyd mewn perthynas â risgiau a manteision dod i gysylltiad ag ymbelydredd yng nghofnodion cleifion a gwelsom fod y wybodaeth hon wedi'i harddangos hefyd.

Cadarnhaodd y cofnodion y gwnaethom eu hadolygu fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar ddefnyddio dyfeisiau meddygol a chyfarpar clinigol yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd trefniadau gwasanaethu addas ar waith ac roedd y practis yn ymateb yn gyflym i unrhyw fethiant system ar gyfer yr holl gyfarpar a archwiliwyd gennym.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion cleifion yn ddiogel. Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol, ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol. Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi bod cleifion yn deall y triniaethau llawfeddygol ac yn cydsynio iddynt, ynghyd â rhestrau gwirio cynhwysfawr er mwyn atal achosion o dynnu'r dant anghywir. Roedd trefniadau cadarn hefyd ar waith yn y practis ar gyfer defnyddio dulliau tawelyddu ymwybodol yn ddiogel. Roedd yr amgylchedd oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer tawelyddu ymwybodol yn briodol ac yn cefnogi gofal diogel, gyda deintyddfeydd o faint digonol i gefnogi triniaethau, adferiad y claf ac i reoli argyfyngau meddygol yn effeithiol.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o 10 claf yn ystod ein harolygiad. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw ar system ddigidol ddiogel, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Roedd y cofnodion a welsom yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r gofal a roddwyd i'r cleifion. Roedd y cofnodion yn cynnwys siartiau sylfaenol llawn wedi'u nodi'n effeithiol, rhesymau dros fynychu, sgrinio ar gyfer canser y geg, yn ogystal â disgrifiad o'r triniaethau a roddwyd. Roedd y cofnodion a welsom yn cynnwys dau glaf a oedd wedi

cael proses dawelyddu ymwybodol yn y practis. Roedd y ddau gofnod hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol i gael darlun cyflawn o'u gofal.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr a oedd yn diwallu anghenion eu cleifion ar safle addas. Roedd y cleifion yn dilyn llwybrau triniaeth mewnol ac allanol yn effeithlon a gwelsom fod atgyfeiriadau brys yn cael eu cofnodi'n briodol a'u holrhain mewn modd amserol gan y clinigwyr. Gwelsom fod apwyntiadau yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan aelodau o staff â chymysgedd priodol o sgiliau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Roedd yr adborth a gawsom gan y staff yn gadarnhaol. Dywedodd y staff wrthym mai gofalu am y cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis deintyddol. Ychwanegodd yr ymatebwyr y byddent yn argymell y practis fel lle da i weithio ynddo a phe bai angen gofal deintyddol ar ffrind neu berthynas, byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir yn y practis.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (11/12) fod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn a bod yr holl ymatebwyr wedi dweud eu bod yn gallu bodloni'r gofynion croes ar eu hamser yn y gwaith. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod cymysgedd priodol o sgiliau yn y practis a gallent gael mynediad at yr holl systemau digidol yr oedd eu hangen arnynt i ddarparu gofal da i gleifion.

Dywedodd yr holl staff wrthym fod y practis yn cymryd camau gweithredu cadarnhaol o ran iechyd a llesiant a bod eu patrymau gwaith yn caniatáu ar gyfer cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Dywedodd holl ymatebwyr yr holiadur wrthym nad oedd eu swyddi yn niweidiol i'w hiechyd.

Dywedodd un aelod o'r staff:

> *“Anaml rwyf wedi gweithio gyda thîm sydd mor garedig, gofalgar a chefnogol yn gyson. Mae pawb yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Mae'r cyfleusterau yn rhagorol, mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar i gefnogi'r staff a'r cleifion. Mae'n amgylchedd croesawgar, ac rwyf wir yn mwynhau gweithio yma.”*

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Nodwyd gennym fod strwythurau rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Roedd rheolwr y practis yn hyderus a dywedodd wrthym ei fod yn meddu ar y sgiliau a’r wybodaeth gywir i gyflawni ei rôl arwain yn effeithiol. Dywedodd rheolwr y practis wrthym ei bod yn cael ei chefnogi'n dda drwy ei haelodaeth o'r grŵp corfforaethol, BUPA. Gwelsom fod y rheolwyr yn weladwy a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent fynd at y rheolwyr i drafod newidiadau neu godi pryderon.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal yn fisol a bod pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Wrth adolygu cofnodion cyfarfodydd, gwelsom fod trafodaethau wedi cael eu cynnal am archwiliadau clinigol, diweddariadau gweithredol a chwynion.

Roedd system ddigidol yn cael ei defnyddio i nodi, cofnodi a rheoli risgiau, materion ac unrhyw ffactorau lliniaru. Roedd system rhannu dogfennau ar-lein yn cael ei defnyddio ar gyfer holl bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Roedd y polisïau a welsom yn gyfredol a gwelsom fod newidiadau yn cael eu rhannu â'r staff mewn modd effeithiol.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i gyfleu hysbysiadau diogelwch i'r staff ac roedd unrhyw hysbysiadau perthnasol yn cael eu harddangos.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Nodwyd gennym fod amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus, yn broffesiynol ac yn gyfeillgar, ac roedd y rhyngweithio a welsom rhwng y staff yn dangos eu bod yn cefnogi ei gilydd. Gwelsom fod gweithdrefnau sefydlu yn cael eu goruchwylio gan reolwr y practis ac roedd y dystiolaeth a welsom yn dangos bod y gweithdrefnau hyn yn addas. Ar gyfer yr achlysuron prin pan fyddai'r practis yn defnyddio gweithwyr asiantaeth, roedd y systemau a oedd ar waith ar gyfer gwirio dogfennaeth hyfforddiant a gwybodaeth recriwtio yn gadarn. Roedd y practis yn gweithredu system rota i sicrhau bod nifer priodol o staff wedi'u hyfforddi'n addas yn gweithio ar unrhyw adeg benodol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion personél chwe aelod o staff sy'n gweithio yn y practis. Yn y cofnodion hyn, gwelsom fod gan bob aelod o'r staff gofrestriadau cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod imiwnedd Hepatitis B wedi'i ddogfennu ar eu cyfer a bod gwybodaeth cyn cyflogi wedi'i chynnwys. Roedd gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael ei gofnodi yn ffeil pob aelod o'r staff ar ddechrau eu cyflogaeth.

Roedd y cofnodion staff a welsom hefyd yn dangos cydymffurfiaeth lawn â'r holl hyfforddiant gorfodol ac arfarniadau blynyddol. Gwnaethom nodi bod y staff a oedd yn ymwneud â darparu tawelyddu ymwybodol wedi cael eu hyfforddi'n briodol a'u bod yn gymwys i gyflawni eu rolau. Gwelsom fod yr holl staff yn cael amser i ymgymryd â hyfforddiant, a dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant ychwanegol sy'n berthnasol i'w rolau a oedd yn amlwg yn y cofnodion a welsom. Dywedodd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rolau a gwnaethant gadarnhau eu bod wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd polisi chwythu'r chwiban y practis yn rhoi canllawiau i'r staff ar sut y gallent fynegi pryderon.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Roedd codau ymateb cyflym (QR) ar gael o amgylch ardal y dderbynfa yn y practis i alluogi'r cleifion i roi eu barn drwy ddarparwr ar-lein. Hefyd, ar ôl cwblhau cwrs o driniaeth, roedd arolwg ar-lein yn cael ei anfon at y cleifion i'w gwblhau ac roedd ffurflenni papur hefyd ar gael. Roedd y practis a'r rheolwyr ardal yn adolygu ac yn archwilio adborth fel mater o drefn bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn nodi unrhyw themâu cyffredin ac yn mynd i'r afael â nhw. Roedd ymatebion i adborth yn cael eu hysbysebu mewn fformat 'dywedoch chi' yn y ffolder gwybodaeth i gleifion yn y dderbynfa. Esboniodd y staff fod y cleifion wedi rhoi adborth i'r practis am yr oriau agor a'u bod wedi cael eu haddasu yn sgil hynny.

Roedd y polisi cwynion ar gael yn y dderbynfa i'r cleifion heb iddynt orfod gofyn am gopi. Roedd y weithdrefn gwyno yn enwi'r aelod o staff y dylai cleifion gysylltu ag ef. Roedd cwynion llafar yn cael eu cofnodi ar system cwynion y practis. Roedd y dull o uwchgyfeirio cwyn wedi'i nodi yn y polisi cwyno i gleifion, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC a'r gwasanaeth cwynion deintyddol. Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion a gwelsom eu bod wedi cael eu trafod yn unol â pholisi'r practis ac ni welsom unrhyw themâu cyffredin.

Roedd y staff a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno eu bod yn deall y Ddyletswydd Gonestrwydd a'u rôl o ran cyrraedd y safonau. Dywedodd pob aelod o'r staff hefyd fod eu sefydliad yn eu hannog i godi pryderon pan oedd rhywbeth wedi mynd o'i le ac i rannu hyn â'u cleifion.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod dull rhagweithiol o wella ansawdd ar waith a bod yr holl weithgareddau gwella ansawdd gorfodol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau cynhwysfawr a rheolaidd o gofnodion cleifion, prosesau presgripsiynu gwrthfiotigau yn ogystal ag archwiliadau atal a rheoli heintiau. Er bod archwiliadau wedi bod yn cael eu cynnal o ansawdd y delweddau radiograffig, roedd y rhain wedi methu nodi'r delweddau pelydr-X a oedd wedi'u haflunio y soniwyd amdanynt mewn man arall o'r adroddiad hwn. Mae'r archwiliadau wedi'u dylunio i sicrhau bod y pelydrau-X yn dderbyniol yn ddiagnostig, i nodi tueddiadau ac i leihau gwallau. Dylai'r archwiliadau o ansawdd radiograffig fod wedi nodi'r delweddau wedi'u haflunio ac wedi gweithredu o ganlyniad i hynny.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr archwiliadau o ansawdd radiograffig yn cael eu hadolygu a'u gwella.

Roedd y practis yn cwblhau dulliau datblygu mewnol, fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddulliau allanol fel y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth sydd ar gael drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi cael eu cwblhau. Trafodwyd manteision y Matrics Aeddfedrwydd â'r practis, a byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnal yr archwiliadau hyn

neu'r rhai sydd ar gael drwy Gymdeithas Ddeintyddol Prydain.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Esboniodd y staff eu bod yn cynnal cydberthnasau gwaith da gyda phartneriaid eraill yn y system iechyd, gan gynnwys y feddygfa leol. Gwelsom fod proses briodol ar waith i fonitro a chynnal atgyfeiriadau at bartneriaid gofal iechyd ac atgyfeiriadau gan bartneriaid gofal iechyd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Smiles Better (BUPA), Y Fenni

Dyddiad yr arolygiad: 18 Awst 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau	Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Smiles Better (BUPA), Y Fenni

Dyddiad yr arolygiad: 18 Awst 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

	Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Yn ystod ein harolygiad o islawr y practis, gwelsom fod blychau'n cael eu storio ar loriau a bod yr ardal yn anniben yn gyffredinol. Hefyd, wrth archwilio storfa a chwpwrdd glanhau y practis, gwelsom fod eitemau ychwanegol wedi cael eu storio ar y llawr a bod y mopiau glanhau wedi cael eu gadael i sychu mewn bwcedi – yn hytrach na chael eu clipio i'r clipiau wal dynodedig.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr ardaloedd nad ydynt i gleifion yn cael eu cadw'n daclus a bod mopiau glanhau yn cael eu gadael i sychu'n briodol.	Rheoliad 22 (2) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Hysbyswyd y glanhawr y dylai handlenni'r mopiau gael eu storio yn y bracedi dynodedig sydd ar gael. Bydd y nyrs arweiniol hefyd yn monitro hyn. Mae'r ystafell lanhau wedi cael ei haildrefnu i sicrhau y gellir glanhau'r lloriau'n iawn. Yr islawr – caiff y blychau eu symud oddi ar y llawr	Gemma Danter Gemma Danter	Wedi'i gwblhau 2/12

	Mae eitemau sy'n cael eu storio ar y llawr yn atal yr ardaloedd hynny rhag cael eu dihalogi'n effeithiol neu gallent rwystro allanfa mewn argyfwng. Mae gadael mopiau glanhau i sychu yn eu bwcedi yn creu risg y bydd halogyddion yn cronni.					
2.	Er bod archwiliadau wedi bod yn cael eu cynnal o ansawdd y delweddau radiograffig, roedd y rhain wedi methu nodi'r delweddau pelydr-X a oedd wedi'u haflunio y soniwyd amdanynt mewn man arall o'r adroddiad hwn. Mae'r archwiliadau wedi'u dylunio i sicrhau bod y pelydrau-X yn dderbyniol yn ddiagnostig, i nodi tueddiadau ac i leihau gwallau. Dylai'r archwiliadau o ansawdd radiograffig fod wedi nodi'r	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr archwiliadau o ansawdd radiograffig yn cael eu hadolygu a'u gwella.	Rheoliad 16 (1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae'r cydraniad Carestream wedi cael ei ddiweddaru a'i osod i gydraniad uwch er mwyn gwella'r eglurder. Rydym hefyd wedi prynu platiau newydd i leihau unrhyw risg y bydd y cyfarpar yn methu. Caiff cofnodlyfrau eu cwblhau gan yr Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol sy'n graddio ansawdd y pelydr-X yn	GEMMA DANTER Trafod canlyniadau archwiliadau Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol i archwilio'n effeithiol	Parhaus – mae gwelliannau i'r archwiliadau eisoes wedi'u rhoi ar waith

	delweddau wedi'u haflunio ac wedi gweithredu o ganlyniad i hynny.			dderbyniol neu'n annerbyniol. Mae hyn wedi cael ei drafod mewn cyfarfod staff, gan esbonio i'r Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol bod angen iddynt nodi unrhyw gydraniad isel neu eglurder gwael yn fwy effeithiol, fel y caiff hyn ei nodi pan fydd yr archwiliadau wedi'u cwblhau. Mae'r clinigwyr yn adolygu eu harchwiliadau ac yna'n trawswirio delweddau i nodi unrhyw welliannau sy'n ofynnol a bod cynllun gwella'n cael ei ychwanegu i'r archwiliad ar gyfer cynllun gweithredu'r clinigydd. Yna caiff canlyniad archwiliad cyffredinol y clinigydd ei drafod mewn cyfarfod		

				practis ar gyfer rhannu gwersi a ddysgwyd ac at ddibenion gwella'r practis.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Gemma Danter

Swydd: Rheolwr y Practis **Dyddiad: 29.09.26**